

## **Cyngor Cymuned Llanelian (320)**

Cofnodion cyfarfod Ionawr 14, 2020 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Elfyn Hughes, Thomas Jones, Ian Evans, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, John Griffiths, Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Cyng. Richard Jones, Cyng. Richard Griffiths Carli Evans Thau (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Aled Jones

**Yn absennol:** Neb

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i gyfarfod cyntaf 2020.

### **2 Datgan Diddordeb**

Hefina Williams – Cytundebau Cynnal a Chadw

Helen Hughes – Cytundebau Cynnal a Chadw

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cymeradwywyd y cofnodion. Cynnig Carol Whitaker, eilio John Griffiths

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

4.1 'Manhole' – nododd Glenys Jones nad oedd unrhyw waith diogelu pellach wedi ei gwblhau. Cytuno cysylltu ag CSYM eto. CET

4.2 Swyddogion Cynllunio – cadarnhawyd bod gwahoddiad wedi ei anfon i Dewi Francis Jones i ddod i gyfarfod mis Chwefror i drafod pryderon cynllunio'r aelodau. Nid oes ymateb hyd yma, y clerch i gysylltu eto. Cytuno dylai'r aelodau gysoni rhestr o gwestiynnau cyn y cyfarfod. CET

4.3 Sedd Wag – mae'r hysbys cyntaf wedi ei arddangos ar y wefan ac y yr hysbysfwrdd. Y cam cyntaf yw hwn i weld os oes angen etholiad. Os nad oes gofyn am etholiad bydd ail hysbys yn cael ei harddangos i wahodd rheini sydd a diddordeb ymuno a'r cyngor i ysgrifennu i'r clerch i ddatgan hynnu.

4.4 Arhosfa bws Pengorffwysfa – i'w drafod ymhellach (materion iechyd a diogelwch)

4.5 Hyfforddiant di-ffibriwleiddwyr – y clerch i drefnu dyddiad gyda Cyng Richard Jones. Nododd bod y peiriant wedi ei ddefnyddio dros y Nadolig a bod y gwananaeth ambiwlans yn monitro y peiriannau. ROJ  
CET

### **5 Adroddiadau Pwyllgorau**

5.1 **Caean Chwarae** – cytuno yn unfrydol byddai cael prisiau eraill am y gwaith i drin y meinciau ym Maes Llwyfo a hefyd cynnwys yr opsiwn i feinciau coed caled. GH

Cafwyd adroddiadau diweddaraf Medwyn Owen a chydnabod eu cynnwys.

5.2 **Llithrfa** – dim diwedadiad

5.3 **Mynwent** – nodwyd bod y pwyllgor wedi ymweld a'r fynwent yn anffurfiol a wedi nodi peth gwaith oedd angen sylw. Cytuno bod angen manylder swyddogol a chael prisiau am y gwaith cyn gynted a phosib. JG  
TJ

Cafwyd wybod bod mainc wedi ei osod yn y fynwent heb ganiatad y Cyngor. Wedi peth trafod, cytuno bod angen cadw at reolau a pholisi'r Cyngor a bydd gofyn i'r unigolyn dalu a chwblhau'r gwaith papur fel unrhyw un arall. Y clerch i drefnu. CET

Nodwyd bod y gwaith wedi dechrau ar y giat newydd gyda'r gobaiith bydd yn ei le erbyn Pasg. Y clerch i gysylltu eto gyda'r Eglwys i weld os oeddent am gyfrannu tuag at y gost. CET

Nodwyd bod gan yr Eglwys hefyd swm mawr o arian drwy garedigrwydd Mrs Mair Morris. Cytuno gofyn iddynt weithio mewn partneriaeth i gwblhau'r gwaith yn y fynwent. Cytuno byddai'r Cyngor yn talu am y gwaith cychwynol a wedyn cael prisiau am y prosiect mwy.

Bydd cyfarfod swyddogol o'r pwyllgor yn cael ei gynnal yn fuan.

Nid oes mainc wedi ei osod ym Mynwent Bosra eto gan fod disgwyl i'r Henaduriaeth drin y llwybr yn gyntaf.

**5.4 Cyllid a Pholisi** - mae'r pwyllgor wedi cwrdd i drafod y gyllideb – gweler isod.

**5.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – mae'r waith o drosglwyddo arian bron wedi ei gwblhau erbyn hyn. Daw ebost gan aelod o'r gymuned gyda rhestr o prosiectau posib. Y clerc i'w gylchredeg i'r aelodau. CET

**5.6 Pwyllgorau Allannol** –

5.6.1 Nododd Dafydd Griffiths ei fod yn bwriadu mynd i sesiwn hyfforddiant am yr Arolygaeth Gynllunio sydd i'w gynnal yn Llandudno. DG

5.6.2 Nododd Dafydd Griffiths bod Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon yn bwriadu cyfarfod gyda Virginia Crosbie, Aelod Seneddol newydd Mon yn fuan.

5.6.3 Cyngrhair Twrcelyn - gofynnodd Dafydd Griffiths am syniadau am brosiectau ar gyfer y gymuned fel bod modd iddo adrodd yn ol i'r pwyllgor ar ran yr ardal. Rhoddodd engrheiffitiau o brosiectau mewn ardaloedd eraill o fewn y ward a syniadau ble gellir gyd weithio a chymunedau eraill. Teimlai Dafydd Griffiths ei fod angen mwy o arweiniad gan y gymuned yn gyffredinol.

Nododd Cyng Richard Jones bod angen mwy o fewnbwn gan ardaloedd eraill o fewn Twrcelyn ac nid yn unig Amlwch. Awgrymodd Cyng Richard Griffiths byddai posib i gyfarfod nesaf y gyngrair gael ei gynnal yn y Neuadd Bentref er mwyn annog y gymuned i fynychu. Cyng Richard Jones i wneud ymholiadau. Nododd Cyng Richard Griffiths bod grantiau o hyd at £5k ar gael i stadau cyngor, byddai yn anfon gwybodaeth pellach at y clerc. ROJ  
RG

Cytuno byddai'r Cyngor yn cynnal cyfarfod agored i ofyn i'r cyhoedd am syniadau am brosiectau. Byddai posib wedyn rhnnu'r prosiectau hynnu i brosiectau ar y cyd gyda ardaloedd eraill neu prosiectau plwyf Llaneilian (TMI). CET

5.6.4 Ysgol Gynradd – nododd Glenys Jones bod CSYM yn edrych eto ar foderneiddio ysgolion yr ardal. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn. Nododd hefyd bod y palmant tu allan i'r ysgol angen sylw. Y clerc i gysylltu a CSYM. CET

**6 Cynllunio**

**6.1 Ceisiadau** –

DEM/2019/20 – Point Lynas Caravan Park – mater cyfreithiol yw hwn dim mater cynllunio FPL/2019/319 – Glascoed, Nebo – tynnu sylw at y lon at yr eiddo a'r mynediad. CET

**6.2 Penderfyniadau** –

HHP/2019/291 - Caer, Llaneilian – Caniatad

Nodwyd bod cais y Bedol wedi ei gymeradwyo gan bwyllgor cynllunio CSYM (adroddiad yn y papur newydd, dim byd swyddogol hyd yma). Roedd yr aelodau wedi eu siomi nad oedd y pwyllgor wedi cydnabod eu sylwadau a'u pryderon am y cais.

**6.3 Gorfodaeth**

Dim diweddariad hyd yma. Y clerc i gysylltu eto. CET

**6.4 Cynllunio - Arall**

Nodwyd bod y Cyngor wedi gwrthwynebu cais i ddatblygu yn Lane's End yn ddiweddar ond bod y cais wedi ei gymeradwyo gan CSYM. Mae'n debyg erbyn hyn bod problemau

enbyd ar y safle gyda tir lithriadau a phroblemau eraill yn dod i'r amlwg. Gofynnwyd pa bwrpas oedd i'r Cyngor Cymuned roi sylwadau ar geisiadau cynllunio os nad oedd CSYM y neu cydnabod, wedi'r cwbl mae aelodau'r Cyngor Cymuned yn adnabod yr ardal a'i hanes. Bydd posib trafod hyn gyda Dewi F Jones yn y cyfarfod nesaf.

## **7 Materion Ariannol**

### **7.1 Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –  
£12.50 CSYM Blwch bagiau baw ci  
£462.71 Carli Evans Thau (cyflog a llithrfa)  
£238.90 Carli Evans Thau (costau hyd-rhag)  
£56.00 Neuadd Bentref (llogi ystafell)  
£166.61 Reach Media (hysbys cytundebau)  
£50.00 JRE Design (arwyddion)  
£93.40 Medwyn Owen (arolygon caeau chwarae)  
£24.00 C Bell (tri torch – beddi TMI)

### **7.2 Ceisiadau am Arian**

Cyflwynwyd dau gais am gefnogaeth –  
OWL Cymru – yr aelodau i wneud ymchwil eu hunain, i'w drafod eto yn y cyfarfod nesaf.  
Theatr Bara Caws – cytuno peidio a chefnogi gan nad oedd gweithgareddau o fewn y ward.

### **7.3 Cytundeb Torri Gwair, Cynnal a Chadw –**

Bu i Helen Hughes a Hefina Williams adael yr ystafell gyfarfod. Bu i Cyng Richard Jones a Cyng Richard Griffiths adael y cyfarfod.

Roedd tri cytundeb cynnal a chadw; agorwyd y ceisiadau oedd wedi eu cyflwyno a chadarnhau pa brisiau oedd ar gyfer pa gytundeb. Cadarnhawyd bod oleiaf pedwar pris wedi ei gynnig ar gyfer pob cytundeb.

Cytuno yn unfrydol penodi'r canlynol:

Cytundeb 1 – Caeau Chwarae – Dave a Claire Holdsworth

Cytundeb 2 – Mynwent Llanelian – Richard Edwards

Cytundeb 3 – Llwybrau, Cynnal a Chadw – Rhys Williams

Y clerc i gysylltu a ohawb oedd wedi cyflwyno prisiau i gadarnhau penderfyniad y Cyngor.

CET

Nodwyd bydd peth gwaith i glirio a thwtio'r fynwent yn yr wythnosau nesaf. Pwyllgor y Fynwent i drafod manyldeb y gwaith a gofyn i'r contractwyr hynnu oedd wedi dangos diddordeb yng nghynnal y fynwent am bris.

### **7.4 Cyllideb a Preiseb 2020-2021**

Nododd Ian Evans y byddai yn datgan diddordeb petai unrhyw drafodaeth am gyflog y clerc. Bu i Hefina Williams ymddiheuro am beidio mynychu cyfarfod y pwyllgor cyllid a pholisi.

Cadarnhawyd bod copi o gynnigion y pwyllgor cyllid a pholisi wedi ei ddsbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod.

Cytuno rhoi rhodd o £100 i'r Arwydd yn flynyddol (a newid rhoddion cyffredinol i £475)

Cytuno edrych ar Gwobr Gwyn Roberts (£10) ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd arian/siec mae'r disgybl yn ei dderbyn, efallai byddai taleb yn fwy addas.

**Derbyniwyd yn unfrydol codi prisen y cyngor 2% ar gyfer 2020/2021, felly prisen y cyngor fyddai £13,018.63. Cyllideb y Cyngor am y flwyddyn fyddai £22,482.00**

## **8 Iechyd a Diogelwch**

Cysgodfan Bws Pengorffwysfa – mae angen manyldeb am y gwaith sydd angen ei wneud a chael prisiau am y gwaith. Dafydd Griffiths, John Griffiths a Thomas Jones i arwain ar y

DG  
JG

**9** **Wylfa Newydd**

Dim diweddariad. Nododd Dafydd Griffiths bod yr Aelod Seneddol newydd Virginia Crosbie yn gefnogol o'r datblygiad.

**10** **Gohebiaeth**

**10.1** Comisiynydd Iaith yn cydnabod pryderon yr aelodau am ddiogelu hen enwau cymreig yn yr ardal.

**10.2** CSYM yn datgan nad oedd yr enw 'Ynys Ynni' yn rhoi cysail cynllunio i ddatblygwyr prosiectau ynni.

**10.3** Cafwyd llythyr gan H Rowlands, Stad Tanrallt yn gofyn am gyflenwad nwy i'r pentref ac yn amlinellu problemau gwresogi yn nhai o fewn y stad. Y clerc i gysylltu a H Rowlands i gydnabod ei llythyr, British Gas am gyflenwad yn y pentref, adran tai CSYM am brosiectau uwchraddio posib. CET

**11** **Rheolau Sefydlog**

Cadarnhodd y Cadeirydd ei fod wedi anfon copi o model Un Llais Cymru i'r pwyllgor cyllid a pholisi er gwybodaeth. Mae peth o'r ddogfen yn statudol a peth ohono yn gallu cael ei addasu ar gyfer pob cyngor. Bydd y pwyllgor yn cwrdd i drafod yn fuan.

**12** **Unrhyw Fater Arall**

**12.1** Yr Arwydd - Nododd yr aelodau siom nad oedd yr ysgol gynradd yn rhoi mwy o hanes yr ysgol yn yr Arwydd. Mae'n gyfle gwych i hyrwyddo llwyddiannau'r ysgol a'i ddisgyblion, plant y gymuned. Y clerc i ysgrifennu i ddatgan siom y cyngor. CET

**12.2** Nodwyd bod darn mawr o iddew wedi disgyn oddi ar y wal ac i'r ffordd fawr ar y lon o Twrcelyn tuag at Porth Amlwch.

**12.3** Diolchwyd i Carol Whitaker a Gordon Hayes am drefnu'r goeden nadolig. Diolchwyd i'r clerc am drefnu'r tri torch ar gyfer beddi teulu TMI.

**12.4** Nodwyd bod angen edrych ar gytundeb y clerc cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai taliadau i'r clerc wedi aros yr un peth er bod taliadau i'r cyngor wedi cynyddu. Cytuno i'r pwyllgor cyllid adrodd yn ol.

**13** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Chwefror 11, 2020 am 7 o'r gloch  
Bu'r cyfarfod orffen am 21.30

**Arwyddwyd**  
**Elfyn Hughes, Cadeirydd**